Elusennau ac Yswiriant

Cynnwys	Tudalen
Am beth mae'r canllaw hwn?	2
Ystyr geiriau ac ymadroddion a ddefnyddir	2
Rhan 1: Cyffredinol	3
Pam y gall yswiriant fod yn angenrheidiol neu'n ddymunol i elusennau	3
Beth yw pwerau a dyletswyddau ymddiriedolwyr mewn perthynas ag yswiriant?	4
Rheoli risg	5
Rhan 2: Mathau cyffredin o yswiriant	10
Elusennau sy'n berchen ar dir ac adeiladau neu sy'n eu meddiannu	10
Yswiriant adeiladau	10
Elusennau sy'n ddalwyr prydles	12
Elusennau sy'n landlordiaid	13
Yswiriant cynnwys	13
Yswiriant atebolrwydd cyhoeddus	15
Beth am rybuddion ymwrthodiad?	16
Yswiriant atebolrwydd cyflogwyr	16
Yswiriant moduron	17
Yswiriant gwarantu ffyddlondeb	17
Yswiriant arall ar gyfer digwyddiadau codi arian	18
Yswiriant costau cyfreithiol	18
Llinellau cymorth cyngor cyfreithiol	19
Colli refeniw/cynnydd yn y gost o weithio	19
Yswiriant indemniad proffesiynol	20
Salwch staff	20
Rhan 3: Yswiriant indemniad ymddiriedolwyr	20
Rhan 4: Materion cysylltiedig eraill a ffynonellau gwybodaeth	23
Yswiriant gwirfoddolwyr	23

Cynlluniau cenedlaethol 23
Elusennau sy'n gweithredu'n rhyngwladol 23
Broceriaid yswiriant 24
Cyfeiriadau defnyddiol eraill 25
Newidiadau pwysig ers y fersiwn flaenorol o'r canllaw hwn 26

Am beth mae'r canllaw hwn?

1. Mae'r canllaw hwn yn disgrifio'r mathau o yswiriant sydd ar gael i ymddiriedolwyr elusennau, gan gynnwys rhai sy'n fandadol. Mae hefyd yn tynnu sylw at bwysigrwydd asesu risg pan fydd ymddiriedolwyr yn ystyried pa yswiriant sy'n angenrheidiol neu'n ddymunol ar gyfer eu helusen.

Ystyr geiriau ac ymadroddion a ddefnyddir

2. Yn y canllaw hwn:

Ystyr **Deddf 1993** yw Deddf Elusennau 1993.

Ystyr **Deddf 2006** yw Deddf Elusennau 2006.

Ystyr **tor-ymddiriedaeth** yw torri unrhyw ddyletswydd a roddir i ymddiriedolwr. I ymddiriedolwyr elusennau gall y dyletswyddau hyn gael eu rhoi gan ddarpariaethau dogfen lywodraethol elusen, gofynion y gyfraith neu orchymyn y llys neu'r Comisiwn Elusennau. Mae dyletswydd yn rhywbeth y mae'n rhaid i ymddiriedolwyr ei wneud. Mae'n wahanol i **bŵer**, y gall ymddiriedolwyr ddewis ei ddefnyddio neu beidio.

Dogfen lywodraethol yw unrhyw ddogfen sy'n pennu dibenion yr elusen ac, fel arfer, y dull o'i gweinyddu. Gall fod yn weithred ymddiriedolaeth, yn gyfansoddiad, yn femorandwm ac erthyglau cymdeithasu, yn Gynllun y Comisiwn, yn drawsgludiad neu'n ewyllys.

Ystyr **ymddiriedolwyr** yw ymddiriedolwyr elusennau. Ymddiriedolwyr elusen yw'r bobl sy'n gyfrifol am reoli gweinyddiad yr elusen yn gyffredinol yn unol â dogfen lywodraethol yr elusen. Yn nogfen lywodraethol yr elusen gallant gael eu galw'n ymddiriedolwyr, yn ymddiriedolwyr rheoli, yn aelodau pwyllgor, yn llywodraethwyr neu'n gyfarwyddwyr, neu gall fod enw arall ganddynt.

Rhan 1: Cyffredinol

Pam y gall yswiriant fod yn angenrheidiol neu'n ddymunol i elusennau

3. Mae dyletswydd ar ymddiriedolwyr elusen i warchod eiddo yr elusen nid yn unig rhag colled neu ddifrod uniongyrchol ond hefyd rhag atebolrwydd trydydd parti a fyddai'n rhaid cael ei fodloni fel arall o eiddo'r elusen. Os yw ymddiriedolwyr yn methu'n afresymol i gyflawni'r ddyletswydd hon gallant fod yn atebol yn bersonol i dalu am golledion yr elusen. Oherwydd hyn, gall fod yn briodol i brynu yswiriant fel ffordd o gyflawni'r ddyletswydd hon.

4. Mae enghreifftiau o fathau o yswiriant yn erbyn colled neu ddifrod yn cynnwys:

- yswiriant adeiladau;
- yswiriant cynnwys; neu
- yswiriant digwyddiadau.

5. Mae enghreifftiau o fathau o yswiriant yn erbyn atebolrwydd yn cynnwys:

- yswiriant indemniad proffesiynol;
- yswiriant atebolrwydd cyflogwyr; neu
- yswiriant atebolrwydd cyhoeddus.

6. Disgrifir y rhain a mathau eraill o yswiriant yn fwy manwl yn Rhan 2 y cyhoeddiad hwn.

7. Mae Rhan 3 yn delio ag yswiriant indemniad ymddiriedolwyr, sy'n fath o yswiriant atebolrwydd, ond ei brif bwrpas yw gwarchod yr **ymddiriedolwyr** yn hytrach na'r **elusen**.

Beth yw pwerau a dyletswyddau ymddiriedolwyr mewn perthynas ag yswiriant?

8. Mae Deddf Ymddiriedolwyr 2000 yn rhoi pŵer clir i ymddiriedolwyr:

- yswirio unrhyw eiddo sy'n amodol ar yr ymddiriedolaeth yn erbyn y perygl o golled neu ddifrod o ganlyniad i unrhyw ddigwyddiad; a

- thalu'r premiymau o arian yr elusen.

9. Nid yw'r pŵer yn y Ddeddf Ymddiriedolwyr yn gymwys i gwmnïau elusennol (ac eithrio os oes ymddiriedolwyr) ond fel rheol bydd y pwerau a ddisgrifir ym memorandwm cymdeithasu'r cwmni yn ddigon eang i awdurdodi prynu'r math hwn o yswiriant.

10. Mae Deddf 1993 (fel y'i heffeithir gan Ddeddf 2006) yn rhoi pŵer clir i ymddiridolwyr brynu yswiriant indemniad yn erbyn eu hatebolrwydd personol, ac i dalu'r premiymau o arian yr elusen.

11. Mae dyletswydd gyffredinol ymddiriedolwyr i warchod eiddo eu helusen yn golygu y dylent roi ystyriaeth briodol i ddefnyddio'r pŵer hwn, fel bod eiddo'r elusen wedi'i yswirio'n ddigonol yn erbyn colled neu ddifrod, os yw yswiriant o'r fath yn briodol. Mae'r pŵer dan Ddeddf Ymddiriedolwyr 2000 wedi'i gyfyngu i yswiriant yn erbyn colled neu ddifrod. Fodd bynnag, mae'n bosib bod pŵer cyfansoddiadol gan ymddiriedolwyr i brynu

yswiriant atebolrwydd. Hyd yn oed os nad oes pŵer o'r fath ganddynt, fel arfer byddai'n briodol i awgrymu pŵer o'r fath os yw natur busnes yr elusen fel petai'n cyfiawnhau hyn.

12. Gall dogfen lywodraethol elusen arbennig fynd ymhellach a gosod dyletswydd bositif i brynu yswiriant. Os oes ansicrwydd ynghylch hyd a lled dyletswydd o'r fath a ddisgrifir yn y ddogfen lywodraethol, dylai'r ymddiriedolwyr geisio cyngor cyfreithiol addas neu gysylltu â'r Comisiwn.

13. Yn ogystal, gall fod yn ofynnol i ymddiriedolwyr brynu rhai mathau o yswiriant yn ôl y gyfraith gyffredinol yn dibynnu ar amgylchiadau'r elusen. Er enghraifft, fel rheol rhaid i elusen sydd â gweithwyr cyflogedig gael yswiriant atebolrwydd cyflogwyr a rhaid i elusen sy'n defnyddio, yn achosi neu'n caniatáu defnyddio cerbyd modur ar y ffordd gael yswiriant yn erbyn atebolrwydd i drydydd parti sy'n deillio o'r defnydd hwnnw. (Gweler paragraffau 42 a 43.)

14. Felly, gall **dyletswydd** i brynu yswiriant godi o'r gyfraith gyffredinol neu ddogfen lywodraethol yr elusen.

15. Os oes pŵer gan ymddiriedolwyr i brynu yswiriant yn erbyn colled neu atebolrwydd, ac maen nhw'n gwrthod ymarfer y pŵer hwnnw mewn ffordd afresymol, neu os oes dyletswydd arnynt i brynu yswiriant o'r fath ac maen nhw'n methu â chyflawni'r ddyletswydd, gallant fod yn gyfrifol yn bersonol am unrhyw golled neu atebolrwydd sy'n codi.

Rheoli risg

16. Yn ddiweddar, mae'r premiymau ar gyfer y rhan fwyaf o yswiriant yn erbyn colled neu atebolrwydd wedi cynyddu'n fawr ac mae pob arwydd bod y tuedd hwn yn debygol o barhau.

Yn ogystal, mae rhai yswirwyr yn gwrthod cynnig yswiriant yn yr hyn a deimlant sy'n feysydd risg uwch o ganlyniad i'r cynnydd yn nifer y ceisiadau a dderbyniant.

17. Bydd y cynnydd mewn premiymau ac, mewn rhai achosion, dileu cynhyrchion yswiriant arbenigol yn effeithio ar y sector elusennol. Oni bai fod gofyniad cyfreithiol i drosglwyddo risg o golled neu atebolrwydd i yswiriwr trwy brynu yswiriant (gweler paragraffau 12 ac 13 uchod), mae'n fwyfwy pwysig bod ymddiriedolwyr yn ystyried y cwestiynau canlynol wrth drafod yr angen am yswiriant yn erbyn atebolrwydd a cholledion:

- Ydy natur busnes yr elusen yn golygu bod risg o golled neu atebolrwydd? Mae'n amlwg bod hyn yn golygu dadansoddi natur busnes yr elusen, a'r risg ymarferol o fod yn agored i atebolrwydd.

  Ni ddylid diystyru'r risg o atebolrwydd dirprwyol am weithredoedd gweithwyr cyflogedig neu wirfoddolwyr yr elusen wrth ddadansoddi hyn. Mewn rhai achosion gall elusen neu ei hymddiriedolwyr fod yn uniongyrchol atebol am weithredoedd anghyfreithlon ei gweithwyr cyflogedig neu ei gwirfoddolwyr. Y mwyaf y nifer o weithwyr cyflogedig a gwirfoddolwyr yr elusen, mwyaf yw'r perygl. (Gweler hefyd *Vicarious Liability of a Charity or its Trustees* dan 'Cyhoeddiadau a Chanllawiau' ar ein gwefan.)

- Faint fyddai cost trosglwyddo'r risg i yswiriwr?

- All unrhyw beth gael ei wneud i leihau'r gost hon? Er enghraifft:

- Trwy gymryd camau i leihau'r posibilrwydd o hawlio yn erbyn yr yswiriwr a/neu leihau maint unrhyw gais. Mae enghreifftiau yn cynnwys gwella mesurau diogelwch ac arddangos rhybuddion ymwrthodiad (gweler paragraff 41).

- Trwy gyfarwyddo brocer yr elusen i geisio dyfynbrisiau cystadleuol, ac nid derbyn y telerau cyntaf a gynigir yn awtomatig.

- Trwy ddefnyddio brocer a all ac a fydd yn cynnal trafodaethau positif ag yswirwyr ynghylch asesu risg. Gall brocer gwybodus fod mewn sefyllfa i 'addysgu' yswirwyr, er enghraifft trwy gymharu profiadau o geisiadau gan elusennau a cheisiadau gan gyrff anelusennol o faint tebyg, a thrwy hynny cael premiwm mwy realistig ar gyfer ei gleient.

- Trwy gydweithio ag elusennau eraill i brynu yswiriant.

- All unrhyw beth gael ei wneud i gynyddu arian yr elusen er mwyn talu am gost yswiriant?

- Ydy hi'n synhwyrol i'r elusen ysgwyddo rhan neu'r cyfan o'r risg o golled neu atebolrwydd ei hun? Dylai ymddiriedolwyr ystyried:

    - Maint yr elusen. Gall elusen sy'n gweithredu ar raddfa fawr deimlo ei bod hi'n briodol iddi dderbyn canlyniadau bod yn agored i risg heb brynu yswiriant. Gall yr angen am yswiriant fod yn fwy amlwg pan fydd yr elusen mewn perygl o golli'r cyfan neu'r rhan fwyaf o'i hasedau o ganlyniad i un cais.

- Y math o elusen, ac yn benodol y risg i'r ymddiriedolwyr elusennau o fod yn agored i atebolrwydd personol. Fel arfer mae defnyddio strwythur cwmni yn gwarchod y cyfarwyddwyr ac aelodau'r cwmni rhag atebolrwydd personol ar gyfer ei dyledion.

- Pwysigrwydd yr elusen. Pa mor niweidiol fyddai'r canlyniadau cymdeithasol pe byddai cais neu gyfres o geisiadau yn golygu na fyddai'r elusen yn gallu gweithredu?

- Y posibilrwydd o leihau premiymau trwy dderbyn tâl-dros-ben uwch.

Yn y cyswllt hwn yn bennaf y mae angen i ymddiriedolwyr elusennau anghorfforedig ystyried y risgiau posibl i'w hunain mewn perthynas ag atebolrwydd yr elusen. Os nad yw asedau'r elusen yn ddigonol i fodloni'r atebolrwydd, mae'n bosib y gall yr ymddiriedolwyr fod yn atebol yn bersonol heb fod unrhyw fai eu hunain am hyn.

- Ddylai'r elusen leihau neu roi'r gorau i'r gweithgaredd sy'n achosi'r risg?

18. Os nad yw math arbennig o yswiriant yn orfodol, dylai'r penderfyniad cychwynnol i'w brynu ddeillio o ddadansoddiad o risg gan yr ymddiriedolwyr. Fel yr awgryma ein cyngor cyffredinol ar berygl (gweler *Charities and Risk Management* dan 'Cyhoeddiadau a Chanllawiau' ar ein gwefan), mae nifer o ymatebion i'r peryglon a wynebir gan elusennau gan gynnwys:

- derbyn y risg;

- cyflwyno rheolaethau neu systemau i gyfyngu'r risg;

- rhoi'r gorau i'r gweithgaredd sy'n creu'r risg; neu

- trosglwyddo'r risg i yswiriwr neu drydydd parti arall.

19. Mae Atodiad III i *Charities and Risk Management* yn cynnwys enghreifftiau o feysydd posib o risg, eu heffaith posib ar yr elusen a ffyrdd o leihau'r effaith. Fel yr eglura'r arweiniad, nid yw'n rhestr gynhwysfawr ac ni ddylai gymryd lle prosesau adnabod risgiau yr elusen ei hun.

20. Dylid prynu yswiriant dim ond os yw lefel y risg sydd i'w throsglwyddo i'r yswiriwr yn golygu ei bod hi'n werth gwario'r premiwm yswiriant. Mater o farn yw'r penderfyniad ac un y mae'n rhaid i ymddiriedolwyr elusen ei gymryd, gan geisio cyngor proffesiynol os oes angen, er lles gorau'r elusen. Fel pob penderfyniad, ar yr amod bod yr ymddiriedolwyr wedi gweithredu'n rhesymol ac wedi ceisio cyngor lle y bo'n briodol, bydd rhaid i'r elusen wynebu canlyniadau unrhyw golled sydd heb ei chynnwys gan yswiriant (yn amodol ar y pwynt a wnaed ym mharagraff 17 uchod ynghylch asedau annigonol elusen). Bydd ymddiriedolwyr sy'n methu â cheisio cyngor neu ddilyn cyngor yn wynebu'r perygl o gyflawni tor-ymddiriedaeth.

21. Os yw yswiriant yn orfodol ar gyfer math arbennig o atebolrwydd, neu os yw'r ymddiriedolwyr yn teimlo ei fod yn angenrheidiol fel arall, bydd angen i'r elusen ystyried a yw'n gallu fforddio parhau â'r gweithgaredd arbennig sy'n creu'r risg o atebolrwydd. Gall cydweithredu wrth brynu yswiriant ag elusen neu gorff arall sydd hefyd yn ymwneud â'r gweithgaredd wneud yr yswiriant yn fwy fforddiadwy. Fel arall mae'n bosibl yr hoffai'r ymddiriedolwyr ystyried a all yr elusen gyflawni ei hamcanion mewn ffordd wahanol, neu'n fwy effeithiol trwy funo ag elusen arall.

22. Mae'r Comisiwn bob amser yn barod i roi cyngor ac arweiniad ar faterion sy'n ymwneud â newidiadau gweithredol a chyfuniadau. Rydym wedi cynhyrchu adroddiad ymchwil **Cydweithio a Chyfuniadau** (**RS4**), ynghyd â llyfryn **Cydweithio a Chyfuniadau: Cyflwyniad** (**CC34**). Mae'r rhain yn nodi arferion da a meini tramgwydd, ac ar gael ar ein gwefan neu ar ffurf copi caled.

Rhan 2: Mathau cyffredin o yswiriant

Elusennau sy'n berchen ar dir ac adeiladau neu sy'n eu meddiannu

23. Bydd graddfa neu natur unrhyw yswiriant yn dibynnu ar y canlynol:

- mae'r elusen yn rhydd-ddeiliad (paragraffau 24-29 isod);
- mae'r elusen yn daliwr prydles (paragraff 30-31 isod); neu
- mae'r elusen yn rhydd-ddeiliad neu'n ddaliwr prydles a hefyd yn landlord (paragraff 32 isod).

Yswiriant adeiladau

24. Os yw elusen yn rhydd-ddeiliad adeilad ac nid yw'r daliwr prydles neu'r tenant (os oes) yn gyfrifol am yswiriant, argymhellwn y dylai'r ymddiriedolwyr yswirio'r adeilad am ei werth adferiad llawn fel rheol, er nad oes unrhyw ddyletswydd i wneud hyn. Mae hyn yn golygu y dylai swm yr yswiriant (hy yr uchafswm a fyddai'n cael ei dalu dan yr yswiriant) fod yn ddigonol i dalu cost:

- unrhyw waith dymchwel a allai fod yn angenrheidiol;
- clirio'r safle;

- ffioedd proffesiynol (pensaer, syrfëwr etc);

- ailadeiladu'r adeilad yn yr un dull etc â'r gwreiddiol; a

- chydymffurfio ag unrhyw ofynion cynllunio neu reoliadau adeiladu perthnasol.

25. Mae'n bwysig iawn bod swm yr yswiriant yn ddigonol. Os yw cais yn cael ei wneud, ac mae'r swm yn annigonol a dylai'r ymddiriedolwyr fod wedi prynu mwy o yswiriant, gall yr ymddiriedolwyr fod yn atebol i wneud iawn am y diffyg o'u pocedi eu hunain. Er mwyn lleihau'r risg hwn, argymhellwn fod ymddiriedolwyr yn derbyn cyngor gan syrfëwr adeiladau cymwysedig proffesiynol ynglŷn â swm yr yswiriant; a dylid gofyn i'r syrfëwr (bob dwy flynedd efallai) i gadarnhau a yw'r ffigur cyfredol yn ddigonol neu beidio. Os nad yw'r yswiriant yn ddigonol, dylai'r ymddiriedolwyr roi gwybod i'r yswiriwr ar unwaith er mwyn iddo ei addasu.

26. Yn yr un modd, os gwneir unrhyw newidiadau, gwelliannau neu ychwanegiadau i'r adeilad, dylai'r ymddiriedolwyr ofyn i'w syrfëwr gadarnhau'r gost ailadeiladu cyfan cyfredol (gan gynnwys ffioedd proffesiynol) ac, os yw hyn yn fwy na'r swm sy'n cael ei yswirio ar hyn o bryd, dylai'r ymddiriedolwyr roi gwybod i'r yswiriwr ar unwaith er mwyn iddo addasu'r swm.

27. Os yw'r ymddiriedolwyr yn dewis polisi yswiriant mynegrifol (sy'n golygu bod swm yr yswiriant yn cael ei addasu yn awtomatig bob blwyddyn gan yr yswirwyr er mwyn adlewyrchu newidiadau mewn costau llafur, deunyddiau adeiladu etc), argymhellwn o hyd y dylent ofyn i'w syrfëwr bob 3-4 blynedd a yw'r ffigur cyfredol yn ddigonol.

28. Yn ein barn ni, byddai'r argymhellion a nodir ym mharagraffau 25-27 yn diogelu ymddiriedolwyr i raddau helaeth yn erbyn atebolrwydd posibl o ganlyniad i amrywiadau mawr mewn gwerth eiddo, neu gost deunyddiau adeiladu. Nid yw newidiadau mewn prisiau eiddo a deunyddiau adeiladu yn cael eu hadlewyrchu'n ddigonol o reidrwydd yn y mynegai prisiau manwerthu.

29. Os yw'r eiddo yn anaddas am gyfnod, gellir cael yswiriant ychwanegol ar gyfer y golled mewn incwm neu'r gost ychwanegol o rentu adeilad arall.

Elusennau sy'n ddalwyr prydles

30. Os yw elusen yn meddiannu eiddo dan brydles, mae'n hanfodol bod telerau'r brydles yn cael eu harchwilio i weld pwy sy'n gyfrifol am yswirio'r adeilad - gall yr elusen (fel y daliwr prydles) neu'r landlord fod yn gyfrifol am yswiriant adeiladau. Mewn rhai achosion, gall cyfrifoldeb am yswirio'r adeiladau, dan delerau'r brydles, gael ei gyfyngu i rai peryglon yn unig fel tân, mellt, daeargryn a ffrwydrad. Os yw'r elusen fel y daliwr prydles yn gyfrifol am yr atgyweiriadau i'r adeilad, mae'n bosib y bydd angen i'r ymddiriedolwyr ystyried a yw'n ddymunol yswirio yn erbyn peryglon eraill hefyd.

31. Os yw'r brydles yn rhan o adeilad yn unig, gall y landlord fod yn atebol am yswirio'r adeilad cyfan, ond efallai y bydd rhaid i bob daliwr prydles dalu cyfraniad priodol tuag at gost yr yswiriant i'r landlord, yn ogystal â'r rhent. Fel arfer cyfrifir swm y cyfraniad yn ôl fformwla gytunedig a amlinellwyd yn y brydles ac a ychwanegwyd at y rhent sy'n daladwy gan y daliwr prydles.

Elusennau sy'n landlordiaid

32. Os yw elusen yn landlord, mae'n rhaid i'r ymddiriedolwyr roi ystyriaeth briodol i gyfrifoldeb am yswiriant wrth baratoi prydlesi. Os yw'r elusen yn parhau i fod yn gyfrifol am yswiriant adeiladau (ee yn achos amlbreswyliaeth), mae angen i'r ymddiriedolwyr sicrhau bod y rhenti y cytunwyd arnynt yn adlewyrchu hyn, neu fod darpariaeth yn cael ei gwneud i alluogi'r landlord i ailgodi rhan briodol o'r costau yswiriant ar bob un o'r dalwyr prydles. Os mai'r daliwr prydles fydd yn gyfrifol, mae'n rhaid i'r ymddiriedolwyr sicrhau bod yswiriant digonol gan y daliwr prydles. Gall y brydles gynnwys darpariaeth i'r elusen gael copïau o ddogfennau'r yswiriant adeiladau a chael rhywfaint o reolaeth dros lefel yr yswiriant.

Yswiriant cynnwys

33. Mae'r ddyletswydd i ddiogelu eiddo elusen yn ymestyn i gynnwys adeilad megis dodrefn, offer ac arian parod, a dylai elusennau gael polisi addas. Mae angen i ymddiriedolwyr ystyried y canlynol:

- a ddylai eu hyswiriant fod ar sail 'newydd am hen' (gall newid offer trydanol a dodrefn fod yn gostus iawn);
- a yw eu hyswiriant yn cwmpasu colled sy'n deillio o ladrad;
- a oes angen i'w hyswiriant gynnwys difrod damweiniol;
- a yw eu hyswiriant yn cwmpasu eitemau penodol megis cyfrifiaduron; ac
- a yw eu hyswiriant yn cwmpasu arian parod sy'n cael ei gludo ac arian parod yn yr adeilad lle y bo'n briodol.

34. Yn achos amgueddfa neu oriel gelf neu elusen debyg mae'n bosib na fydd yswiriant yn erbyn colled neu ddifrodi cynnwys yn briodol oherwydd nid oes modd adfer y cynnwys neu oherwydd bod y gost yn afresymol o uchel. Pe byddai'r ymddiriedolwyr yn talu'r gost honno efallai na fyddent yn gallu ymgymryd â gweithgareddau eraill sy'n hanfodol i ddiben yr elusen (er enghraifft arddangos, cynnal a chadw ac atgyweirio'r casgliad). Mewn amgylchiadau o'r fath efallai y bydd yr ymddiriedolwyr am geisio arweiniad gennym ynghylch a fyddai methu â chael yswiriant digonol yn cael ei ystyried yn dor-ymddiriedaeth, neu ynghylch mesurau diogelwch eraill y gallent eu hystyried.

35. Gellir prynu yswiriant am bris rhesymol, er enghraifft, yn erbyn cost atgyweirio eitemau sydd wedi'u difrodi, neu yn erbyn cost ymchwilio i ladrad a cheisio adfer eitemau sydd wedi cael eu dwyn. Gallai mesurau diogelwch gael eu hadolygu er mwyn lleihau'r perygl o golled a gallai hyn olygu ei bod hi'n haws cael yswiriant.

36. Mae'n bosib i bolisïau yswiriant cynnwys gael cyfleuster mynegrifol awtomatig a bydd angen i'r ymddiriedolwyr ystyried a yw hyn yn briodol i'w helusen.

37. Os yw eiddo yn cael ei osod gan elusen, mae yswiriant cynnwys yn gyfrifoldeb y daliwr prydles fel arfer, os yw'r cynnwys yn eiddo'r daliwr prydles. Os yw'r adeilad yn cael ei osod wedi'i ddodrefnu, bydd angen i'r elusen fel y landlord sicrhau naill ai fod y brydles yn nodi bod y tenant yn uniongyrchol gyfrifol am yswiriant y cynnwys, neu fod y tenant yn talu, trwy'r rhent neu dâl gwasanaeth, am yr yswiriant y mae'r elusen yn ei brynu.

Yswiriant atebolrwydd cyhoeddus

38. Gall hyn fod yn briodol i elusennau sy'n berchen ar dir neu adeiladau neu sy'n eu meddiannu. Mae'n cynnig diogelwch:

- Yn erbyn ceisiadau gan aelodau o'r cyhoedd am niwed, colled neu ddifrod a gafwyd ar eiddo'r elusen.

- Yn erbyn ceisiadau sy'n codi dan Ddeddfau Atebolrwydd Meddianwyr 1957 a 1984. Mae'r Deddfau hyn yn datgan bod dyletswydd gofal gan feddiannwr yr eiddo mewn perthynas ag ymwelwyr i'w heiddo a thresmaswyr ar eu heiddo. Yn ôl Adran 2(2) Deddf 1957:

  > "Mae'r ddyletswydd gofal gyffredinol yn ddyletswydd i gymryd y fath ofal sy'n rhesymol gan ystyried holl amgylchiadau'r achos i sicrhau y bydd yr ymwelydd yn rhesymol ddiogel wrth ddefnyddio'r eiddo at y dibenion y cafodd ei wahodd neu ei ganiatáu gan y meddiannwr i fod yno ar eu cyfer."

39. Gall yswiriant atebolrwydd cyhoeddus hefyd fod yn briodol i elusennau sy'n ymgymryd â gweithgaredd busnes i ffwrdd o'u hadeiladau eu hunain, yn trefnu digwyddiadau a fynychir gan y cyhoedd neu'n cyflenwi nwyddau i'r cyhoedd. Yn y ffordd hon, byddai'r elusen a'i hymddiriedolwyr, ei gweithwyr cyflogedig a'u gwirfoddolwyr wedi'u hindemnio yn erbyn ceisiadau gan aelodau'r cyhoedd am niwed, colled neu ddifrod a gafwyd yn ystod y gweithgaredd, digwyddiad neu gyflenwad.

40. Os ceir cais am swm sy'n fwy na'r uchafswm sy'n daladwy dan y polisi ('terfyn yr indemniad'), efallai y bydd yr ymddiriedolwyr yn atebol yn bersonol am y diffyg os oedd yswiriant digonol

ar gael ond roeddent wedi methu'n rhesymol â'i brynu, ar ôl ystyried yr holl amgylchiadau, gan gynnwys natur y risg a chost yr yswiriant. Nid oes lefel yswiriant lleiaf statudol.

Beth am rybuddion ymwrthodiad?

41. Mae'n bwysig nodi ei bod yn bosib na fydd lleoliad rhybudd ymwrthodiad (sydd i'w weld yn aml mewn ystafelloedd cotiau a meysydd parcio) ynglŷn â niwed, difrod neu golled i berson neu eiddo tra eu bod yn yr adeilad neu wrth ddefnyddio'r adeilad, yn cael yr effaith o osgoi atebolrwydd. Y rheswm am hyn yw oherwydd dan adrannau 2(1) a 2(2) Deddf Telerau Cytundeb Annheg 1977:

> "2(1) Ni all person trwy gyfeirio at unrhyw delerau yn y cytundeb neu rybudd a roddir i bobl yn gyffredinol neu i bobl arbennig wahardd neu gyfyngu ei gyfrifoldeb am farwolaeth neu anaf personol sy'n deillio o esgeulustod.
>
> 2(2) Yn achos colled neu ddifrod arall, ni all person wahardd neu gyfyngu ei gyfrifoldeb am esgeulustod ac eithrio cyn belled â bod y telerau neu'r rhybudd yn bodloni'r gofyniad o resymoldeb."

Yswiriant atebolrwydd cyflogwyr

42. Mae'n ofynnol i elusennau sydd â gweithwyr cyflogedig gael yswiriant atebolrwydd cyflogwyr. Dan Ddeddf Atebolrwydd Cyflogwyr (Yswiriant Gorfodol) 1969 fel y'i diwygiwyd gan Reoliadau Atebolrwydd Cyflogwyr (Yswiriant Gorfodol) 1998, mae'n ofynnol i bob cyflogwr gael yswiriant am o leiaf £5 miliwn am niwed neu glefyd y mae gweithwyr cyflogedig yn eu dioddef neu'n eu dal wrth ymgymryd â'u dyletswyddau. Mae'n rhaid i'r cyflogwr arddangos mewn lle amlwg dystysgrif sy'n dangos bod polisi dilys mewn grym.

Yswiriant moduron

43. Os yw elusen yn berchen ar gerbydau modur neu'n eu gweithredu, mae'n rhaid i'r ymddiriedolwyr gydymffurfio â darpariaethau'r Deddfau Traffig y Ffyrdd sy'n ei gwneud yn orfodol i gael yswiriant yn erbyn anaf trydydd parti a difrod i eiddo. Os yw ymddiriedolwyr, gweithwyr cyflogedig neu wirfoddolwyr yn defnyddio eu cerbydau eu hunain at ddibenion yr elusen neu wrth gyflawni busnes yr elusen, mae'n rhaid i'r ymddiriedolwyr sicrhau bod yswiriant perchennog y cerbyd yn cwmpasu defnydd o'r fath. Gall unrhyw bremiymau ychwanegol y mae'n rhaid eu talu ddod o incwm yr elusen.

44. Ceir gofynion arbennig ynglŷn â bysus mini a ddefnyddir i gludo pobl ar sail hurio neu wobrwyo a dylai yswirwyr yr elusen allu cynghori'r ymddiriedolwyr ynglŷn â'r rhain.

Yswiriant gwarantu ffyddlondeb

45. Mae'n bosib cael yswiriant i dalu am y golled sy'n codi i'r elusen o dwyll neu anonestrwydd ei gweithwyr cyflogedig os ydynt yn delio ag arian parod neu eitemau gwerthfawr eraill yr elusen. Gall fod modd estyn yr yswiriant hwn i gynnwys twyll neu anonestrwydd ar ran unrhyw ymddiriedolwr a/neu wirfoddolwr hefyd. Nid yw'r math hwn o yswiriant (a elwir yn gyffredin yn 'yswiriant lladrad gan weithwyr cyflogedig') yn cymryd lle rheolaeth perygl ariannol a phersonol cadarn ac fel arfer fe'i darperir dim ond os gall yr elusen ddangos bod ei threfniadau gweinyddol yn ddigonol ac yn cael eu harolygu'n briodol.

46. Os yw ymddiriedolwyr yn cael eu cynghori gan eu hymgynghorwyr proffesiynol cyfreithiol neu annibynnol eraill bod angen yr yswiriant hwn neu fod yr yswiriant hwn yn ddymunol er mwyn gwarchod asedau'r elusen, mae'n rhaid i unrhyw amharodrwydd personol o greu'r argraff nad ydynt yn ymddiried yn eu

gweithwyr cyflogedig ddod yn ail i'w dyletswydd i ddiogelu eiddo'r elusen neu ei henw da. Mae'n bosib y gall unrhyw golled ariannol i'r elusen gael ei hadennill o'r ymddiriedolwyr yn bersonol os yw'r ymddiriedolwyr wedi gweithredu yn groes i gyngor proffesiynol.

Yswiriant arall ar gyfer digwyddiadau codi arian

47. Bydd trefnwyr digwyddiadau codi arian megis garddwesti, sioeau a galâu yn aml yn cymryd yswiriant yn erbyn colledion sy'n deillio o ganslo'r digwyddiad oherwydd tywydd gwael. Cyfeirir at hyn yn aml fel 'yswiriant pluvius'. Fel arfer ceir cyfyngiadau amser a threfniadau caeth dros fesur lefelau glaw gyda'r math hwn o yswiriant. Argymhellwn y dylai ymddiriedolwyr sy'n dymuno cael yswiriant o'r math hwn geisio cyngor proffesiynol.

48. Gellir cael yswiriant mewn perthynas ag apeliadau ar gyfer y gost o sefydlu a gweinyddu'r apêl, lle nad yw'r ymateb i'r apêl yn cyfateb â'r disgwyl. Gallai hefyd gael ei estyn i gynnwys colli arian parod a godwyd mewn digwyddiad pan fydd yn cael ei gludo neu ei gadw dros nos neu dros benwythnos yng nghartref preifat unigolyn enwebedig neu uwch swyddog yr elusen. Os ydych yn bwriadu cynnal apêl codi arian mawr, dylai ymddiriedolwyr ystyried a yw'r math hwn o bolisi yn briodol. Gellir cael gwybodaeth bellach am godi arian yn ein llyfryn **Elusennau a Chodi Arian** (**CC20**).

Yswiriant costau cyfreithiol

49. Gall elusennau brynu yswiriant i indemnio cost rhai costau cyfreithiol a all godi os oes rhaid i'r elusen dwyn achos neu amddiffyn achos cyfreithiol a byddai fel arall yn daladwy gan yr elusen o'i hasedau ei hun (oni bai fod modd adfer y gost o'r gwrthwynebydd). Os yw'r math hwn o yswiriant yn cynnwys costau

anghydfod cyflogaeth, fel arfer mae hefyd yn cynnwys atebolrwydd yr elusen (fel y cyflogwr) am unrhyw iawndal penodedig a ddyfernir i'r gweithiwr cyflogedig. Fel rheol gall yr yswiriant gael ei estyn i gynnwys achosion sy'n cael eu dwyn yn erbyn yr ymddiriedolwyr, gweithwyr cyflogedig a'r gwirfoddolwyr.

50. Fel rheol mae yswiriant costau cyfreithiol yn cael ei brynu yn y ffordd arferol cyn bod unrhyw anghydfod neu gais wedi codi ac weithiau mae yswiriant cyfyngedig yn cael ei gynnwys mewn polisi cynnwys neu foduron heb lawer o gost ychwanegol neu ddim cost ychwanegol. Mae hefyd yn bosib prynu yswiriant costau cyfreithiol **ar ôl** adnabod angen arbennig am achos cyfreithiol, pan fydd yr yswiriant yn gwarchod elusen mewn sefyllfa ansicr o fod yn agored i gostau wrth ddelio â'r cais neu'r anghydfod dan sylw.

Llinellau cymorth cyngor cyfreithiol

51. Mae rhai costau cyfreithiol a pholisïau yswiriant eraill sydd ar gael i elusennau yn cynnwys cael cyngor cyfreithiol am ddim, fel arfer trwy linell gymorth dros y ffôn. Gall gwasanaeth o'r fath fod yn ddefnyddiol pan fydd problem yn codi ac mae angen cyngor ar frys cyn i'r broblem droi'n golled neu'n gais posib, os yw wedi'i gynnwys gan unrhyw un o bolisïau yswiriant yr elusen neu beidio.

Colli refeniw/cynnydd yn y gost o weithio

52. Gellir trefnu yswiriant colled canlyniadol ar gyfer lleihad mewn incwm busnes elusen a/neu gynnydd yn ei gorbenion os yw tân neu ddigwyddiad arall sy'n achosi difrod i'r safle a/neu offer yn amharu ar fusnes yr elusen. Dylai'r yswiriant fod yn ddigonol i dalu'r gost o hurio eiddo a/neu offer newydd yn ystod unrhyw waith adeiladu neu wrth aros am offer newydd.

Yswiriant indemniad proffesiynol

53. Os yw elusen yn darparu, naill ai dan gontract neu am ffi neu fel arall, wasanaeth proffesiynol (fel cwnsela) neu unrhyw fath arall o gyngor neu wybodaeth (yn enwedig cyngor cymhleth neu gyngor a all fod yn ddadleuol), gall yr elusen fod yn atebol os yw hwn yn cael ei ddarparu'n esgeulus. Felly, mae'n ddoeth ystyried prynu yswiriant yn erbyn ceisiadau sy'n honni bod yr elusen yn atebol yn gyfreithiol am niwed, colled neu ddifrod a gafwyd pan ddarparwyd y gwasanaeth hwnnw neu o ganlyniad i ddilyn y cyngor neu ddefnyddio'r wybodaeth honno.

54. Mae angen ystyried telerau polisïau o'r fath yn ofalus. Os yw'r polisi (fel sy'n gyffredin) yn cynnwys ceisiadau sy'n cael eu **cychwyn** yn ystod cyfnod yr yswiriant, waeth pryd y rhoddwyd y cyngor yr honnir ei bod yn esgeulus, yna mae'n bosib y bydd angen i'r ymddiriedolwyr ystyried neilltuo digon o arian i dalu'r premiymau ar gyfer cyfnod o sawl blwyddyn (yn unol â chyngor proffesiynol) ar ôl i'r cyngor gael ei roi. Gall y cyfnod hwn estyn y tu hwnt i ddiddymu'r elusen.

Salwch staff

55. Gellir cael yswiriant ar gyfer y gost o dalu cyflog salwch i weithwyr cyflogedig.

Rhan 3: Yswiriant indemniad ymddiriedolwyr

56. Mae yswiriant indemniad ymddiriedolwyr (YIY) yn yswirio ymddiriedolwyr rhag gorfod talu'n bersonol pan fydd achos cyfreithiol yn cael ei ddwyn yn eu herbyn (gan eu helusen neu gan drydydd parti) ar sail tor-ymddiriedaeth, neu dor-ddyletswydd neu esgeulustod, sydd wedi'i gyflawni yn eu rhinwedd fel ymddiriedolwyr. Ar yr amod bod

yr awdurdod cyfreithiol angenrheidiol gan yr ymddiriedolwyr, mae hawl ganddynt gael eu hyswirio yn erbyn achosion a all godi o ganlyniad i'w gweithredoedd cyfreithlon fel ymddiriedolwyr, a byddant wedi'u hyswirio yn erbyn atebolrwydd ar yr amod eu bod wedi gweithredu'n onest ac yn rhesymol. Yn y rhan fwyaf o achosion, bydd yr awdurdod hwn yn cael ei ddarparu gan y pŵer statudol a gyflwynwyd gan Ddeddf 2006. Os yw elusen yn gwmni, neu os yw'n ymgymryd â rhan o'i busnes trwy gwmni ar wahân, mae atebolrwydd personol ymddiriedolwyr ar gyfer unrhyw 'weithredoedd anghyfreithlon' fel cyfarwyddwyr cwmni neu swyddogion (gan gynnwys unrhyw atebolrwydd am 'fasnachu anghyfreithlon') wedi'i gynnwys.

57. Y prif wahaniaeth rhwng yswiriant indemniad ymddiriedolwyr YIY a mathau eraill o yswiriant sy'n cael ei brynu er budd yr elusen yw bod YIY yn diogelu ymddiriedolwr unigol yn uniongyrchol, yn hytrach na'r elusen ei hun. Am y rheswm hwnnw, ystyrir bod YIY yn fath o 'fudd personol', ac mae angen awdurdod cyfreithiol priodol **cyn** y gall yr elusen ei brynu. Mae sawl elusen wedi cael y math hwn o awdurdod ers tro yn eu dogfennau llywodraethol, ond os nad oes gan elusen yr awdurdod hwn, mae adran 73F Deddf 1993 yn darparu pŵer cyffredinol i brynu YIY gan ddefnyddio arian yr elusen. Rhaid i'r gost fod yn rhesymol a rhaid i'r ymddiriedolwyr sicrhau bod YIY er lles gorau eu helusen.

58. Mae hyn yn golygu mai'r **unig** amser y mae angen i elusen gysylltu â'r Comisiwn am awdurdod i brynu YIY yw pan fydd dogfen lywodraethol yr elusen yn gwahardd ei brynu yn uniongyrchol ac yn benodol. Yn ein profiad ni, mae'n anarferol iawn i ddogfen lywodraethol gynnwys y math hwn o waharddiad penodol. Mae **gwaharddiadau cyffredinol** ynglŷn â

buddion ymddiriedolwyr yn llawer mwy cyffredin, ond oni bai fod eu telerau yn gwahardd prynu YIY yn benodol, **mae'r pŵer cyfreithiol cyffredinol** i brynu YIY heb ganiatâd y Comisiwn **yn drech na'r telerau hyn**.

59. Ond dylai ymddiriedolwyr fod yn ymwybodol **na all** TII ddarparu indemniad i ymddiriedolwr ar gyfer ei atebolrwydd personol am:

- dirwyon troseddol, neu gosbau gan awdurdodau cyhoeddus;
- costau achosion troseddol os yw ymddiriedolwr yn euog o dwyll, anonestrwydd, neu ymddygiad di-hid; neu
- atebolrwydd sy'n deillio o ymddygiad yr oedd yr ymddiriedolwr yn gwybod, neu roedd yn rhesymol i'r ymddiriedolwr wybod nad oedd er lles yr elusen.

60. Os yw dogfen lywodraethol yn cyfyngu ar atebolrwydd ymddiriedolwyr **i'r elusen** am dor-ymddiriedaeth, neu os ydym ni neu'r llys yn cytuno i ryddhau ymddiriedolwyr o unrhyw atebolrwydd i'r elusen, bydd unrhyw yswiriant indemniad ymddiriedolwyr a brynir yn talu am golledion y mae'r ymddiriedolwyr yn ***wirioneddol*** atebol ar eu cyfer yn unig. Bydd rhaid i'r elusen ei hun dalu cost unrhyw golledion sy'n fwy na hynny.

61. I gael mwy o fanylion ynghylch pryd a sut i ddefnyddio'r pŵer cyffredinol, argymhellion fod ymddiriedolwyr yn darllen y daflen wybodaeth **Yswiriant Indemniad Ymddiriedolwyr** (**CSD-1279**) ar ein gwefan.

Rhan 4: Materion cysylltiedig eraill a ffynonellau gwybodaeth

Yswiriant gwirfoddolwyr

62. Mae'n bosib y bydd angen i'r ymddiriedolwyr geisio cyngor ynghylch hawliau a sefyllfa gwirfoddolwyr, na fydd efallai yr un fath â gweithwyr cyflogedig. Mae'n bwysig sicrhau bod gwirfoddolwyr yn ogystal â gweithwyr cyflogedig yn derbyn hyfforddiant ac arolygaeth ddigonol a bod eu lles hwy a lles y rheiny y maent yn cael cysylltiad â hwy wrth gyflawni eu rôl yn cael eu hystyried, er enghraifft yn unol â'r dyletswyddau a roddir gan ddeddfwriaeth fel Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974 ac ati. Fe gynghorir ymddiriedolwyr i ystyried gwirfoddolwyr fel gweithwyr cyflogedig at ddibenion yswiriant a sicrhau eu bod wedi'u cynnwys yn briodol gan y mathau arferol o yswiriant y gallai elusen eu prynu, ee ar gyfer atebolrwydd cyflogwyr neu atebolrwydd cyhoeddus. Bydd angen archwilio'r polisi i weld sut y mae'n diffinio'r hyn y mae'r term 'gwirfoddolwr' yn ei olygu at ddibenion y polisi hwnnw a dylai'r ymddiriedolwyr gadw cofnodion manwl gywir o'r gwirfoddolwyr sy'n gweithio i'r elusen sydd wedi'u cynnwys o fewn y diffiniad hwnnw.

Cynlluniau cenedlaethol

63. Dylai elusennau sy'n aelodau o gyrff neu gymdeithasau cenedlaethol gysylltu â'u pencadlys cenedlaethol am gyngor ar yswiriant, gan fod nifer ohonynt yn darparu cynlluniau y gall aelodau ymuno â nhw.

Elusennau sy'n gweithredu'n rhyngwladol

64. Rhaid i elusennau sy'n gweithredu'n rhyngwladol ystyried peryglon cymhleth i bersonél ac eiddo. Mae'r camau sydd i'w cymryd i warchod iechyd a diogelwch personél yr elusen, ymhlith pethau eraill, yn cael eu

trafod yn ein canllaw ar *Elusennau sy'n Gweithio'n Rhyngwladol* (ar gael ar ein gwefan dan 'Cyhoeddiadau a Chanllawiau'). Gall mesurau diogelwch priodol helpu lleihau'r perygl i bersonél a chost premiymau yswiriant.

65. Mae'r elusen People In Aid (1078768) yn rhwydwaith rhyngwladol o asiantaethau datblygu a chymorth dyngarol. Mae gwybodaeth bellach ar ddiogelwch personél a rheoli risgiau sy'n gysylltiedig â staff i'w gweld ar gael ar ei gwefan. Mae People In Aid wedi cyhoeddi arolwg o'r enw 'Under Cover' sy'n ystyried materion yswiriant i weithwyr cymorth - caiff ei ddiweddaru fel y bo angen. Y manylion cyswllt yw:

People In Aid
The Resource Centre
356 Holloway Road
Llundain
EC2A 4LT

www.peopleinaid.org
Ffôn: 020 3095 3950
Ffacs: 020 7697 9580
E-bost: info@peopleinaid.org

Broceriaid yswiriant

66. Wrth ystyried y trefniadau ar gyfer unrhyw fath o yswiriant, dylai ymddiriedolwyr geisio cyngor proffesiynol annibynnol priodol. Fel arfer mae'n ddoeth defnyddio brocer yswiriant sydd â'r ddealltwriaeth briodol o anghenion yswiriant elusennau ac sydd mewn sefyllfa i roi busnes i unrhyw un neu fwy o amrywiaeth o gwmnïau yswiriant. Mae elusennau sy'n gwneud hyn yn debygol o ganfod bod eu hanghenion yswiriant yn cael eu hateb yn fwy economaidd. Nid yw'r Comisiwn Elusennau yn cadw rhestrau o gwmnïau yswiriant sy'n cynnig gwasanaethau i elusennau. Mae gan Gymdeithas Broceriaid

Yswiriant Prydain, er enghraifft, restr o froceriaid ar gyfer pob ardal o'r wlad a gall hefyd adnabod yr aelodau hynny sydd â maes arbenigol neu ddiddordeb arbennig. Cyfeiriad y Gymdeithas yw:

Cymdeithas Broceriaid Yswiriant Prydain
BIBA House
14 Bevis Marks
Llundain
EC3A 7NT

www.biba.org.uk
Ffôn: 0870 950 1790
Ffacs: 020 7626 9676
E-bost: enquiries@biba.org.uk

Cyfeiriadau defnyddiol eraill

67. Cyngor Cenedlaethol Cyrff Gwirfoddol (NCVO) yw'r corff mantell mwyaf i'r sector gwirfoddol a chymunedol ac mae'n cynnig cyngor a gwybodaeth ar ystod eang o sectorau. Yn ogystal â darparu cyngor arfer gorau, mae NCVO yn cynrychioli'r sector pan fydd yn delio â'r llywodraeth a'r rhai sy'n llunio polisïau. Mae NCVO yn gorff aelodaeth hefyd ac mae mwy na 4,200 o sefydliadau yn aelodau. Ei gyfeiriad yw:

NCVO
Regent's Wharf
8 All Saints Street
Llundain
N1 9RL

www.ncvo-vol.org.uk
Ffôn: 020 7713 6161
Ffacs: 020 7713 6300
Desg gymorth rhadffôn: 0800 2798 798

68. Mae'r Gweithgor Iechyd a Diogelwch wedi cyhoeddi canllaw ar Yswiriant Atebolrwydd Cyflogwyr yn:
http://www.hse.gov.uk/pubns/hse40.pdf

69. Mae Canolfan Genedlaethol Gwirfoddoli wedi cyhoeddi rhai taflenni gwybodaeth ar iechyd a diogelwch ac yswiriant yn: http://www.volunteering.org.uk/Resources/information/on-lineinformationsheets

Newidiadau pwysig ers y fersiwn flaenorol o'r canllaw hwn

Dyddiad fersiwn flaenorol y canllaw hwn oedd Medi 2003. Mae Rhan 3 y fersiwn ddiwygiedig hon yn adlewyrchu'r newidiadau a gyflwynwyd gan Ddeddf Elusennau 2006 sy'n caniatáu i gronfeydd elusen gael eu defnyddio i brynu polisïau yswiriant indemniad ymddiriedolwyr.

Ein nod yw gwneud ein cyhoeddiadau mor ddefnyddiol a darllenadwy ag y bo modd. Os oes gennych unrhyw awgrymiadau ynglyn â gwella'r llyfryn hwn, ysgrifennwch at y Rheolwr Argraffu a Chyhoeddi yn ein Swyddfa yn Taunton.

© Hawlfraint y Goron 2008. Gellir atgynhyrchu'r cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r Arfau Brenhinol a logos adrannol) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei atgynhyrchu yn fanwl gywir ac ni chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod bod y deunydd yn hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl y cyhoeddiad. Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael hefyd ar wefan yr adran: www.charitycommission.gov.uk

Rhagor o Wybodaeth

Efallai y bydd o ddefnydd i chi droi at y cyhoeddiadau canlynol gan y Comisiwn Elusennau:

CC3	Yr Ymddiriedolwr Hanfodol: Yr hyn y mae angen i chi wybod
CC3(a)	Yr Ymddiriedolwr Hanfodol: Cyflwyniad
CC8	Rheolaeth Ariannol Mewnol i Elusennau
CC10	Nodweddion Elusen Effeithiol
CC11	Talu Ymddiriedolwyr Elusennau
CC20	Elusennau a Chodi Arian
CC29	Elusennau ac Awdurdodau Lleol
CC30	Cael Hyd i Ymddiriedolwyr newydd - Yr hyn y mae angen i Elusennau wybod
CC34	Cydweithio a Chyfuniadau: Cyflwyniad
RS4	Cydweithio a Chyfuniadau

All of our publications are available in English. For information on availability please call Charity Commission Direct on 0845 300 0218.

Am restr gyflawn o'n holl gyhoeddiadau a casetiau sain, gofynnwch am:

CC1 Cyhoeddiadau'r Comisiwn Elusennau

I gael copïau o unrhyw un o'r cyhoeddiadau uchod, gallwch naill ai:

- edrych arnynt a'u hargraffu o'n gwefan: **www.charitycommission.gov.uk**;
- archebu yn ystod oriau agor - Llun - Gwener 08:00 - 20:00 a 09:00 - 13:00 ddydd Sadwrn trwy ffonio ni ar **0845 300 0218**; neu
- ysgrifennwch i **Comisiwn Elusennau Uniongyrchol, Blwch SP 1227, Lerpwl, L69 3UG**.

Nodiadau